

CYMRAEG – IAITH FODERN

Amser – 1.5 awr

Atebwch bob cwestiwn

A: Darllen a Deall

Darllenwch yr erthygl isod ac atebwch y cwestiynau gan ysgrifennu brawddegau llawn. (25%)

Rhybudd am brynu anifeiliaid bychain i blant

Mae'r RSPCA yn rhybuddio rhieni i feddwl yn ofalus cyn prynu anifeiliaid bychain i'w plant, gyda nifer yr anifeiliaid oedd yn gorfod cael eu hachub ar gynnydd y llynedd. Ar gyfartaledd, fe wnaethon nhw achub mwy nag un anifail bach bob dydd.

Maen nhw'n dweud nad yw maint anifeiliaid bychain yn golygu o reidrwydd fod y gwaith o ofalu amdany'n nhw'n haws nag anifeiliaid mwy o faint, ac fe all rhai anifeiliaid fod ag anghenion cymhleth.

Mae'r RSPCA yn cynnal mis o ymgyrch i geisio dod o hyd i gartrefi newydd i anifeiliaid yn eu canolfannau, gyda'r pwyslais yr wythnos hon ar anifeiliaid bychain sydd wedi cael eu hesgeuluso.

Ymhlith y 388 o anifeiliaid bychain a gafodd eu hachub yng Nghymru y llynedd, cwningod oedd 142 ohonyn nhw, a Chasnewydd oedd yr ardal lle bu'n rhaid achub y nifer fwyaf o anifeiliaid bychain.

Fis diwethaf, daeth yr elusen o hyd i chwech o foch cwta mewn cwdyn Lidl yn y Barri, a hwnnw'n llawn gwastraff dynol, ac mae tri ohonyn nhw'n dal i aros am gartrefi newydd.

“Mae nifer o bobol yn meddwl fod yr RSPCA ond yn achub ac yn dod o hyd i gartrefi newydd ar gyfer cathod a chŵn, ond dydy hynny ddim yn wir,” meddai Dr Jane Tyson o'r elusen.

“Rydyn ni'n gweld miloedd o anifeiliaid bach blewog yn dod i'n gofal bob blwyddyn ac yn aml, mae hyn o ganlyniad i anallu perchnogion i ymdopi â gofalu am yr anifeiliaid hyn yr oedden nhw'n meddwl y bydden nhw'n hawdd gofalu amdany'n nhw.”

Mae'r ganolfan yng Nghasnewydd yn chwilio am gartref newydd i nifer o'u hanifeiliaid. Mae'r RSPCA hefyd yn gofyn i bobol roi arian i'w hymgyrch Adoptober – gallai cyn lleied â £1.50 helpu i roi cartref newydd i gath neu gi, meddai'r elusen.

1. Pam mae'r RSPCA yn dweud wrth rieni i feddwl cyn prynu anifeiliad bychain i'w plant? (2 ateb)
2. Faint o anifeiliad bychain a achubodd yr RSPCA yng Nghymru y llynedd?
3. Beth mae'r RSPCA yn ei wneud ar hyn o bryd i helpu anifeiliad bychain?
4. Ym mha ddinas yng Nghymru yr achubwyd y nifer fwyaf o anifeiliaf bychain y llynedd?
5. Beth ffeindiodd yr RSPCA mewn bag y mis diwethaf?
6. Beth mae'r cyhoedd yn gallu ei wneud i gefnogi gwaith yr RSPCA? (2 ateb)

B: Cyfieithu

Cyfieithwch y brawddegau canlynol i'r Gymraeg (25%)

1. I was working in the library yesterday but it was very noisy.
2. He drives to work in the morning if it's raining.
3. She used to send a birthday card to her grandmother every year.
4. Is there a spider in the bathroom? Your sister is frightened.
5. They get up at 7 o'clock every morning and get ready for school.
6. Your mother wasn't at church yesterday. Is she ill?
7. We'll have a picnic at the beach tomorrow with fruit, sandwiches and cake.
8. His parents went shopping yesterday and they bought enough food.
9. I went on holiday to France with my family in July. It was lovely.
10. Can you speak Welsh? It's a very useful language.

C: Ysgrifennu

Ysgrifennwch draethawd byr ar **un** o'r testunau hyn. (Awgrymir eich bod yn ysgrifennu tua 500 o eiriau. Dylid cofio mai cywirdeb ac iaith dda sydd bwysicaf, ac nid faint yr ydych yn ei ysgrifennu.) (50%)

Cyffuriau
Ewrop
Fy hoff lyfr
Rhywun enwog o Gymru
Beth yw manteision dysgu'r Gymraeg?